anthem.

**Atsain Cylch 6 - Rhwystrau Economaidd a Chymdeithasol**

**Canllawiau Ariannu**

**Beth yw ffocws Atsain yn y cylch hwn?**

Mae cylch ariannu nesaf Atsain, un o raglenni Anthem, yn canolbwyntio ar hybu prosiectau cerddoriaeth sy'n helpu pobl ifanc yng Nghymru sy'n wynebu rhwystrau economaidd a chymdeithasol. Mae'r cylch hwn yn blaenoriaethu mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag anfantais economaidd-gymdeithasol, a all atal cerddorion ifanc rhag cael mynediad at y cymorth a'r cyfleoedd sydd eu hangen i symud ymlaen yn y diwydiant cerddoriaeth.

Mae Anthem yn rhagweld Cymru lle mae gan gerddoriaeth y pŵer i sbarduno a thrawsnewid pob bywyd ifanc. Credwn fod cerddoriaeth yn rym bywiog, nerthol i bobl ifanc, gan danio hunanfynegiant, sbarduno twf personol, a dyrchafu lles. Nod ein cronfa newydd yw chwalu'r rhwystrau sylweddol sy'n gysylltiedig â chefndir cymdeithasol ac economaidd sy'n atal rhai pobl ifanc rhag profi'r manteision llawn a ddaw o greu cerddoriaeth. Gan adeiladu ar ddealltwriaeth o *Blueprint for the Future* gan Youth Music, sy'n amlygu bod dosbarth cymdeithasol yn rhwystr allweddol i gyfranogiad cerddoriaeth, rydym yn ymrwymo i gynorthwyo prosiectau sy'n sicrhau bod pob person ifanc, waeth beth fo'u cefndir, yn gallu manteisio ar gyfleoedd ystyrlon i greu cerddoriaeth.

*"DOSBARTH CYMDEITHASOL YW'R RHWYSTR MWYAF - Canfuwyd mai dosbarth cymdeithasol, yn anad dim arall, sy'n dylanwadu ar siawns pobl ifanc o ennill arian trwy gerddoriaeth. Roedd y rhai o gefndiroedd incwm is yn llai tebygol o gryn dipyn o fod yn ennill arian trwy gerddoriaeth na'r rhai o gefndiroedd incwm uwch. Roedd yr anghyfartaledd hwn yn dal i'w weld hyd yn oed pe bai'r ddwy garfan wedi astudio cerddoriaeth yn yr ysgol, yn y coleg neu yn y brifysgol. Wrth gymharu rhai a oedd yn ennill arian o gefndiroedd incwm is ac uwch, gwelwyd bylchau hefyd rhwng y rhai a oedd wedi cwblhau lleoliadau gwaith â thâl a rhai di-dâl." Blueprint for The Future, Youth Music*

I unrhyw un sydd â diddordeb mewn gwybod mwy am yr ymchwil mae Youth Music wedi'i chynnal ar bwnc pobl ifanc, cerddoriaeth ac anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol,

gweler y dolenni canlynol:

*[Let’s Talk About the Class Ceiling in Music | Youth Music]*

*[A Blueprint for the Future | Youth Music]*

Nod Anthem yw darganfod mwy am y materion allweddol i bobl ifanc sy'n profi rhwystrau economaidd-gymdeithasol a chynorthwyo sefydliadau cerddoriaeth ieuenctid llawr gwlad ledled Cymru i archwilio atebion trwy waith prosiect. Ein nod hefyd yw cynnal ymgynghoriad â sefydliadau sy’n cael eu hariannu dros y 6 mis nesaf i balu'n ddyfnach i'r hyn y mae pobl ifanc yn ei brofi ledled Cymru.

Rydym eisoes yn gwybod bod yna sefydliadau sydd wedi gwneud gwaith gwych gyda grwpiau penodol o bobl ifanc sy'n wynebu anfanteision o ran cyrchu a mwynhau cerddoriaeth. Rydym yn awyddus i ddefnyddio'r cylch hwn i ddatblygu set benodol o ddata ac ymchwil ynghylch y mater penodol hwn. Mae Anthem yn gwerthfawrogi cyfleoedd i ddysgu a datblygu'r hyn a wnawn, a bydd y cylch hwn yn arbennig o allweddol wrth ganfod y materion allweddol sy'n ymwneud â'r rhwystr hwn, yn enwedig gan nad yw anfantais economaidd-gymdeithasol yn nodwedd warchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

**Pwy sy'n gymwys i gael cyllid?**

I fod yn gymwys ar gyfer y Cylch Atsain hwn, rhaid i'ch sefydliad fod yn:

- Gweithredu fel Elusen, CIC, CIO, Partneriaeth neu Gwmni Cyfyngedig drwy Warant gyda dogfen lywodraethol.
- Meddu ar gyfrif banc yn y DU a darparu set o gyfrifon.
- Gweithredu polisïau a gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant.
- Gweithio gydag ieuenctid yng Nghymru.

**Beth yw'r blaenoriaethau ariannu?**

Ar gyfer y cylch Atsain hwn, dylai prosiectau sy’n cael eu hariannu:

1. Mynd i'r afael â rhwystrau economaidd-gymdeithasol penodol sy'n effeithio ar allu pobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd cerddoriaeth.
2. Canolbwyntio ar bobl ifanc sy'n wynebu heriau cymhleth a chroestoriadol, fel:
    - anfantais oherwydd hil, dosbarth, hunaniaeth, rhywedd, trawma neu brofedigaeth.
    - Caledi ariannol, gan gynnwys ffactorau risg fel digartrefedd neu gyswllt â'r system ofal.

    - Diffyg mynediad at rwydweithiau'r diwydiant cerddoriaeth, mentoriaid, neu fodelau rôl i uniaethu â nhw.
3. Cyfrannu at ddatblygu sylfaen gref o ddata ac ymchwil ynglŷn â rhwystrau economaidd-gymdeithasol yng Nghymru trwy broses ymgynghori sy'n digwydd yn ystod cyfnod y prosiect yn ogystal â gwerthuso cydweithredol.

**Dyma rai enghreifftiau o brosiectau cymwys:**

- Rhaglenni sy'n darparu mentora neu hyfforddiant ym maes cerddoriaeth i bobl ifanc dan anfantais economaidd.
- Mentrau sy'n creu cyfleoedd perfformio a rhwydweithio yn y diwydiant i bobl ifanc sydd heb fynediad i'r diwydiant cerddoriaeth.
- Prosiectau cymunedol sy'n cynorthwyo cerddorion ifanc i ddatblygu sgiliau cerddorol mewn amgylcheddau cefnogol sy'n hygyrch yn ariannol.

**Yr hyn na fyddwn yn ei ariannu**

- Ysgolion, colegau neu sefydliadau addysgol yn uniongyrchol.
- Ffioedd gwersi offerynnol unigol.
- Prosiectau offer yn unig oni bai eu bod yn rhan o fenter ehangach.
- Gweithgareddau sy'n ymwneud â chwricwlwm cerddoriaeth wedi'u hanelu at gymwysterau (e.e. TGAU neu Safon Uwch).
- Prosiectau y tu allan i Gymru neu rai a ariannwyd yn ddiweddar gan gronfeydd Youth Music: Incubator neu Trailblazer.

**Symiau a Hyd y Prosiectau**

Mae'r Cylch Atsain hwn yn cynnig grantiau o hyd at £7,500. Rydym yn rhagweld y byddwn yn ariannu tua saith o sefydliadau. Gall hyd y prosiect amrywio o 6 i 18 mis, ac mae disgwyl i'r prosiect gael ei gwblhau erbyn 30 Medi 2026 fan bellaf.

**Sut i wneud cais**

**Y Broses Ymgeisio**

Bydd ceisiadau ar gyfer y Cylch Atsain hwn yn cael eu cyflwyno ar-lein. Dylai pob cais gynnwys:

1. **Ffurflen gais** a dogfennau ategol, gyda chrynodeb o'r prosiect o ddim mwy na thair ochr A4 (neu gyfwerth mewn fformat fideo/sain).

2. **Cyllideb** ac unrhyw ddogfennau ychwanegol sy'n ofynnol wedi’u lanlwytho ar ffurf ysgrifenedig.
3. **Crynodeb o'r prosiect** yn amlinellu:
    - Gwaith eich sefydliad ym maes cerddoriaeth gyda phobl ifanc dan anfantais economaidd-gymdeithasol.
    - Y rhwystrau economaidd-gymdeithasol y mae’r prosiect yn mynd i’r afael â nhw.
    - Y canlyniadau a ragwelir ar gyfer y prosiect a chynllun ar gyfer monitro a gwerthuso.

**Llinell Amser Ymgeisio**

- **Dyddiad Agor:** Rhagfyr 2024
- **Dyddiad Cau:** Chwefror 2025
- **Hysbysiad o’r Penderfyniad Ariannu:** Erbyn Mawrth 2025

**Meini Prawf Asesu’r Prosiectau**

Bydd y ceisiadau'n cael eu hadolygu ar sail:

- Sut mae’n cyd-fynd â'r flaenoriaeth o fynd i'r afael â rhwystrau economaidd-gymdeithasol.
- Llais ieuenctid cryf a strwythur prosiect sy’n cael ei arwain gan y gymuned.
- Canlyniadau realistig i’r prosiect a’i gynaliadwyedd.
- Partneriaeth a chydweithio effeithiol â sefydliadau a rhwydweithiau lleol.
- Cynnwys cynllun gwerthuso ac adrodd cadarn.

**Ar beth alla i wario'r arian?**

Gall yr arian gael ei ddefnyddio ar gyfer costau uniongyrchol y prosiect, gan gynnwys:

- Ffioedd staff a gweithwyr llawrydd, llogi lleoliadau, offer ynghlwm wrth weithgareddau’r prosiect, a hyrwyddo.
- Cyfraniad at gostau gorbenion (hyd at 10% o gyfanswm cyllideb y prosiect).

Nid ydym yn talu costau cyn dyfarnu, treuliau cyfalaf mawr, TAW adferadwy, na chostau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo gwleidyddol neu grefyddol.

**Sut ydw i'n gwneud cais am arian?**

Proses un cam yw gwneud cais i Atsain. Mae'r camau yn y broses ymgeisio fel a ganlyn:

1. Cyflwyno eich ffurflen gais, cyllideb a dogfennau ategol ar-lein drwy ein porth grantiau erbyn 5pm ar y dyddiad cau.

   Mae ein ffurflen gais yn cynnwys amrywiaeth o gwestiynau y mae angen eu llenwi, ond bydd gofyn i chi hefyd gyflwyno dogfen Word heb fod yn fwy na thair ochr A4 a fydd yn cyflwyno atebion i'r cwestiynau allweddol.

   Gall y wybodaeth hon hefyd gael ei chyflwyno ar ffurf fideo, PowerPoint neu sain. Bydd hefyd angen i chi gyflwyno cyllideb ac amryw ddogfennau ategol y gellir eu cyflwyno ar ffurf ysgrifenedig yn unig.

2. Caiff eich cais ei asesu gan ein panel, a bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a oes arian yn cael ei ddyfarnu iddo ai peidio.

3. Byddwn yn anfon e-bost i chi i roi gwybod beth yw'r penderfyniad. Os byddwch yn aflwyddiannus, bydd hyn yn cynnwys adborth ar eich cais. Os byddwch yn llwyddiannus, bydd hyn yn amlinellu'r camau nesaf ynghylch sut i dderbyn eich grant a chael eich taliad cyntaf.

**Sut mae'r prosiectau yn cael eu hasesu?**

Bydd ein panel asesu yn gwneud penderfyniad yn seiliedig ar ba mor fawr yw'r angen am y gwaith, a pha mor llwyddiannus y maen nhw'n teimlo y bydd y prosiect yn mynd i'r afael â rhwystrau economaidd-gymdeithasol penodol i bobl ifanc ymwneud â cherddoriaeth. Bydd y panel hwn yn cynnwys pobl ifanc, cerddorion a gweithwyr proffesiynol yn y celfyddydau sydd â phrofiad bywyd a gwybodaeth am rwystrau economaidd-gymdeithasol i bobl ifanc gyfranogi.

Ein nod yw ariannu amrywiaeth mor amrywiol o sefydliadau â phosibl er mwyn mynd i'r afael â'r rhwystr penodol hwn i gyfranogiad cerddoriaeth y mae pobl ifanc yn ei wynebu. Rydym yn ystyried lleoliad, maint, iaith, genre a chynulleidfaoedd targed er mwyn ariannu portffolio cytbwys o sefydliadau.

Bydd eich prosiect yn cael ei asesu ar y meini prawf penodol canlynol:

- A yw'r sefydliad a'r prosiect yn gymwys?
- A yw'r prosiect yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau?
- A ddangoswyd bod angen y prosiect?
- A oes canlyniadau cryf a realistig?
- A yw'n dangos gwaith partneriaeth effeithiol?
- A yw lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed yn eich prosiect?
- A oes strategaeth werthuso gadarn?
- Ydych chi wedi meddwl am waddol neu gynaliadwyedd eich prosiect?
- A oes cyllideb realistig a chywir ar gyfer y prosiect?
- A yw'r holl ddeunydd ategol angenrheidiol wedi'i ddarparu?
- A oes polisi diogelu cadarn ar waith?

- Oes gennych chi hanes blaenorol da fel sefydliad?
- A yw eich cyfrifon yn dangos rheolaeth ariannol dda?

**Cwestiynau Cyffredin**

**Ar beth allaf i wario'r arian?**

Byddwn yn ariannu costau sy'n ganlyniad uniongyrchol i'r prosiect, fel costau staff, ffioedd gweithwyr llawrydd, llogi lleoliadau, prynu offer, costau marchnata ac ati.

Byddwn hefyd yn gwneud cyfraniad tuag at y gorbenion sy'n helpu i gefnogi'r prosiect arfaethedig, fel adnoddau dynol, rhent swyddfa a chyfleustodau, systemau TG, llywodraethu, yswiriant, a ffioedd archwilio, hyd at uchafswm o 10% o gyfanswm costau'r prosiect.

Ni fyddwn yn ariannu gweithgareddau sydd wedi digwydd cyn i chi dderbyn cadarnhad o ddyfarniad y grant, costau ynghlwm wrth wneud eich cais, costau cyfalaf sylweddol, benthyciadau neu daliadau llog, costau TAW y gellir eu hadennill neu weithgareddau sy’n hyrwyddo credoau pleidiol wleidyddol neu grefyddol.

**A allaf wneud cais am fwy nag un prosiect?**

Gall sefydliadau wneud cais am un grant y flwyddyn.

**A allaf wneud cais am ail grant ar gyfer yr un prosiect?**

Bydd angen i sefydliadau sy'n ailymgeisio am grant arall gael sgwrs gyda ni i ddangos angen newydd am y gwaith, neu sut y bydd y gwaith newydd yn adeiladu ar y canlyniadau a gyflawnwyd eisoes.

**A gaf i ymgeisio eto os ydw i wedi bod yn aflwyddiannus?**

Cewch. Os bydd eich cais yn aflwyddiannus, byddwn yn rhoi adborth i chi ac efallai y byddwn yn argymell eich bod yn gwneud addasiadau i'ch prosiect er mwyn gwella ei siawns o lwyddo mewn cylch ariannu yn y dyfodol.

**A oes disgwyl i mi gyrraedd terfynau nifer y geiriau?**

Na, ond gofynnwn i chi gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol y bydd ei hangen ar ein panel i wneud penderfyniad cwbl wybodus.

**Beth fydd yn digwydd os byddaf yn llwyddiannus?**

Cewch eich cynorthwyo gan ein Rheolwr Rhaglen drwy gydol eich grant.
Yn gyntaf byddwn yn cyhoeddi cytundeb ariannu a ffurflen gychwynnol ynghylch gofynion y grant i chi eu llenwi.

Efallai y byddwn yn gofyn i rai gofynion gael eu bodloni cyn y gallwn wneud penderfyniad terfynol am eich grant. Efallai y bydd angen i chi ddarparu dogfennau pellach neu wneud newidiadau i'ch ffurflen gais.

Bydd amserlen dalu yn cael ei darparu ar gyfer eich prosiect, a fydd yn dibynnu ar hyd eich prosiect a swm y grant. Gallai prosiectau mwy a hirach dderbyn taliadau mewn rhandaliadau, tra bydd prosiectau llai a byrrach yn derbyn 75% o'u grant ymlaen llaw, a bydd y 25% sy'n weddill yn cael eu talu ar ôl derbyn adroddiad terfynol y prosiect.

Bydd pob ymgeisydd yn cael ei annog i ymuno â Rhwydwaith Ymarfer Atsain a fydd yn rhedeg ochr yn ochr â'r gronfa. Bydd hyn yn caniatáu i brosiectau sy’n cael eu hariannu rannu’r hyn sy’n cael ei ddysgu, meithrin perthynas ymhlith aelodau'r rhwydwaith ac ar draws y sector ehangach, a datblygu arferion gorau yng Nghymru.

**Beth yw'r terfynau amser a'r amserlen?**

Mae'r cylch ariannu hwn yn cau am **5pm ar 27 Ionawr 2025.**

Mae'r panel yn cyfarfod ganol mis Mawrth a dylai ymgeiswyr dderbyn hysbysiad a ydynt wedi bod yn llwyddiannus erbyn diwedd mis Mawrth.

**Cymorth a gwybodaeth bellach**

Os oes gennych gwestiynau neu os oes angen cymorth arnoch, cysylltwch â Rheolwr Rhaglen Anthem: kofi.acheampong@anthem.wales.